Pecyn Dogfen Cyhoeddus

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r  Pwyllgor Trwyddedu | Dyddiad: | 27 Chwefror 2014 |
| | | Rhif Union: | 01824 712568 |
| | | ebost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 5 MAWRTH 2014** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIAD I'R WASG A'R CYHOEDD FYNYCHU'R RHAN HWN O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai'r aelodau ddatgan unrhyw gysylltiadau personol neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu ag unrhyw fusnes y nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o faterion y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 18)

Derbyn -

(a) cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2013 (copi wedi'i amgáu), a

(b) chofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Arbennig a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2013 (copi wedi'i amgáu).

**5 CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED SEFYDLIAD RHYW** (Tudalennau 19 - 22)

Rhoi ystyriaeth i adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (mae copi wedi'i amgáu) mewn perthynas â chais gan Adult World i adnewyddu Trwydded Sefydliad Rhyw i eiddo sydd wedi ei leoli yn 43-47 Heol y Frenhines, Y Rhyl.

**6 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2014/15** (Tudalennau 23 - 26)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) yn cyflwyno rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor ac yn rhoi diweddariad i'r aelodau ynglŷn â materion perthnasol.

**RHAN 2 - EITEMAU CYFRINACHOL**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem(au) busnes canlynol yn cael eu trafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 a 14, Rhan 4 Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**7 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - YMGEISYDD RHIF 043844** (Tudalennau 27 - 30)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi ynghlwm) yn ceisio penderfyniad gan yr aelodau ynglŷn â chais am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 043844.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Cefyn Williams (Cadeirydd)
Stuart Davies (Is-Gadeirydd)

Joan Butterfield
William Cowie
Richard Davies
Hugh Irving
Pat Jones
Barry Mellor
Win Mullen-James
Peter Owen
Arwel Roberts

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# PWYLLGOR TRWYDDEDU
## GWEITHDREFN ER MWYN PENDERFYNU AR GEISIADAU AM DRWYDDEDAU GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT AC ADOLYGU GYRWYR TRWYDDEDIG PRESENNOL

| CAM | DISGRIFIAD |
|---|---|
| 1. | Dylai’r Cadeirydd groesawu a chyflwyno’r ymgeisydd/deilydd y drwydded i bawb sy'n bresennol. |
| 2. | Dylai’r Cyfreithiwr ofyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i gadarnhau ei fod/bod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau’r Pwyllgor. Os yw’r ymgeisydd yn ateb yn gadarnhaol, dylid symud ymlaen at gam 4. |
| 3. | Pe digwydd i’r ymgeisydd/deilydd y drwydded ddweud nad yw wedi derbyn yr adroddiad, yna dylid cyfarch y mater yn awr. Gallai'r Aelodau fod eisiau ystyried gohirio’r mater, am gyfnod byr, er mwyn i’r ymgeisydd/deilydd y drwydded gael cyfle i ddarllen yr adroddiad. |
| 4. | Dylai Pennaeth Cynllunio a Diogelu’r Cyhoedd (neu gynrychiolydd ar ei ran) gyflwyno’r cais/adolygiad yn fras |
| 5. | Gofynnir i’r ymgeisydd/deilydd y drwydded gyflwyno ei achos/hachos<br><br>Gall yr ymgeisydd/deilydd y drwydded alw unrhyw dyst y mae’n eu dewis i gefnogi ei gais/chais, a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw i’r Swyddogion Trwyddedu ynglŷn â hynny. |
| 6. | Gall Aelodau’r Pwyllgor holi’r ymgeisydd/deilydd y drwydded ac /neu ei dystion ei thystion. |
| 7. | Gwahoddir swyddogion technegol i gyflwyno unrhyw ganfyddiadau (Gorfodaeth Trwyddedu/Cymunedol, Tîm Cyswllt Cyntaf (y Gwasanaethau Cymdeithasol), Cludiant Ysgolion.) |
| 8. | Gall Aelodau’r Pwyllgor ac yna’r ymgeisydd/deilydd y drwydded ofyn cwestiynau i’r swyddogion technegol |
| 9. | Gwahoddir yr ymgeisydd/deilydd y drwydded i gyflwyno sylwadau i gloi, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. |
| 10. | Gofynnir i’r canlynol adael y cyfarfod tra trafodir y cais/yr adolygiad gan yr Aelodau - yr ymgeisydd/deilydd y drwydded, pob trydydd parti, Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, swyddogion technegol.<br><br>DS yr unig rai a ddylai fod yn weddill yw – Aelodau’r Pwyllgor, cyfieithydd, cynghorydd cyfreithiol y pwyllgor a’r sawl sy’n cymryd y cofnodion. |

| | |
|---|---|
| 11. | Dylai aelodau'r pwyllgor roi ystyriaeth i'r cais/adolygiad gan roi cyfrif am y dystiolaeth a glywyd. |
| 12. | Pe bai'n angenrheidiol i Aelodau'r Pwyllgor alw unrhyw barti yn eu holau i'w holi neu i ofyn iddynt ddarparu rhagor o wybodaeth neu egluro rhywbeth, gwahoddir pawb a fydd wedi ymneilltuo o'r cyfarfod yn eu holau. Wedi i'r cwestiwn (cwestiynau) gael eu hateb gofynnir i bob trydydd parti ymneilltuo unwaith eto er mwyn i'r Aelodau gael ystyried y dystiolaeth i gyd. |
| 13. | Pan fo'r Aelodau wedi dod i benderfyniad, gelwir yr holl bartïon yn eu holau a chaiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded wybod beth yw penderfyniad yr Aelodau gan y Cadeirydd. |
| 14. | Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded o'r penderfyniad y daethpwyd iddo. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw amodau neu gosbau sydd wedi eu gosod. Os oes angen, dylai Cyfreithiwr y Cyngor gyflwyno eglurhad pellach ynglŷn â'r penderfyniad a'i oblygiadau i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded. |
| 15. | Os mai'r penderfyniad yw gwrthod neu os oes penderfyniad i atal neu ddirymu, dylai Cyfreithiwr y Cyngor roi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded am yr hawl i apelio i Lys Ynadon (bydd y llythyr penderfyniad hefyd yn cynnwys y manylion hyn). |
| 16. | Ar gyfer gyrrwr sydd eisoes wedi ei drwyddedu (a bod y drwydded wedi ei rhoi gan Sir Ddinbych), a bod penderfyniad y Pwyllgor yn ymwneud ag atal neu ddirymu'r drwydded bresennol, gall yr Aelodau wneud hynny naill ai o dan:<br><br>1. Adran 61 (2A) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.<br>2. Adran 61 (2B) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Daw'r penderfyniad hwn i rym YN SYTH ac ni ellir ei ddefnyddio ond pan fo'r sail dros atal/dirymu yn fater sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd.<br><br>Bydd y Cyfreithiwr yn esbonio goblygiadau'r penderfyniad wrth ddeilydd y drwydded. |
| 17. | Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei hysbysu o'r penderfyniad yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'r ymarferol bosibl. |
| 18. | Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei wahodd/gwahodd i drafod unrhyw fater y mae'n ansicr yn ei gylch gyda Swyddogion Trwyddedu yn dilyn y Pwyllgor. |

# PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl, Dydd Mercher, 4 Rhagfyr 2013 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Bill Cowie, Richard Davies, Stuart Davies, Hugh Irving, Win Mullen-James, Arwel Roberts a Cefyn Williams (Cadeirydd)

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (GW), Swyddog Trwyddedu (NJ & JT), Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (EJ), Swyddog Gorfodaeth (twe), Swyddog Gorfodaeth Trwyddedi (HB) a'r Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Pat Jones, Barry Mellor a Peter Owen

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd cysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu gan unrhyw un.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chafwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 18 Medi, 2013.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2013 fel cofnod cywir.*

## 5 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2013/14

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd eisoes) ar raglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu. Oherwydd nifer o resymau amrywiol fel y manylwyd yn yr adroddiad nid oedd y swyddogion wedi gallu bodloni gofynion y rhaglen waith gyfredol a chynigwyd cyflwyno rhaglen gwaith i'r dyfodol diwygiedig yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor ym mis Mawrth.

Eglurodd y Cynghorydd Bill Cowie fod materion trwyddedu wedi'u trafod yng nghyfarfod diwethaf Pwyllgor Craffu Perfformiad a'i fod wedi holi am y posibilrwydd o staff ychwanegol oherwydd y pwysau gwaith a nodwyd. Nododd yr Aelodau'r rhesymau dros y llithriad yn y rhaglen waith a bod angen adolygu blaenoriaethau trwyddedu gan ystyried materion eraill sy'n cymryd amser y swyddogion. O ganlyniad -

***PENDERFYNWYD** bod yr adroddiad yn cael ei nodi a bod y swyddogion yn cyflwyno Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ddiwygiedig yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Trwyddedu ym mis Mawrth.*

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD** dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

**6 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - YMGEISYDD RHIF 041213**

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd eisoes) ar –

(i) Cais a dderbyniwyd gan Ymgeisydd Rhif 041213 i ddal trwyddedau i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat;

(ii) Nad oedd y swyddogion mewn sefyllfa i gymeradwyo'r cais yn dilyn gwybodaeth a ddaeth i'r amlwg yn dilyn datgeliad llawn gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd;

(iii) Crynodeb o euogfarnau a ddatgelwyd oedd yn ymwneud â nifer o droseddau am gyfnod o 1961 hyd at 2001 gan gynnwys digwyddiadau o anonestrwydd, trais a throseddau traffig;

(iv) Polisi cyfredol y Cyngor o ran perthnasedd yr euogfarnau, a

(v) gofynnwyd i'r Ymgeisydd i fod yn bresennol yn y cyfarfod i gefnogi ei gais ac ymateb i gwestiynau aelodau ar hynny.

Roedd yr Ymgeisydd yn bresennol yn y cyfarfod ac yn dilyn cyflwyniadau cadarnhaodd ei fod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor. Darparodd y Swyddog Trwyddedu (JT) grynodeb o'r adroddiad ac egluro bod y mater wedi'i gyflwyno i'r pwyllgor gael asesu addasrwydd yr Ymgeisydd i ddal trwydded gan ystyried nifer a natur yr euogfarnau a ddatgelwyd.

Cyfarchodd yr Ymgeisydd y pwyllgor ac eglurodd amgylchiadau nifer o'r euogfarnau gyda rhai ohonynt o'i ieuenctid ac eraill oedd yn gysylltiedig â chyfnod anodd yn ei fywyd personol. Fe bortreadodd ei hun fel unigolyn gonest, sy'n gweithio'n galed ac yn mynychu'r eglwys a chadarnhaodd i'r pwyllgor ei fod yn unigolyn cyfrifol yn awr. Eglurodd yr Ymgeisydd nifer o faterion o ran natur ac amgylchiadau ei euogfarnau blaenorol mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau o ran hynny. Yn ei ddatganiad terfynol gofynnodd yr Ymgeisydd i'r pwyllgor edrych yn ffafriol ar ei gais a sicrhaodd ei ymddygiad yn y dyfodol pe bai trwydded yn cael ei rhoi.

Ar y pwynt hwn torrodd y pwyllgor i ystyried yr achos a -

***PENDERFYNWYD** gwobrwyo cais am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat ar gyfer ymgeisydd rhif 041213.*

Y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu oedd –

Roedd y pwyllgor wedi ystyried yr adroddiad yn ofalus a chais yr Ymgeisydd ac wedi mynegi pryder ynglŷn â nifer y mathau o euogfarnau a ddatgelwyd gan y gwiriad o'i gofnod troseddol. Fodd bynnag, roeddent wedi ystyried y ffaith bod y troseddau wedi'u cyflawni gryn dipyn o amser yn ôl a derbyniodd yr aelodau'r eglurhad ynglŷn â'r euogfarnau a gyflwynodd yr Ymgeisydd. Roedd y pwyllgor o'r farn bod yr Ymgeisydd yn onest ynglŷn â'i ymddygiad presennol ac yn y dyfodol ac o ganlyniad penderfynodd y pwyllgor ei fod yn Unigolyn cymwys ac addas i ddal trwydded. Rhoddwyd rhybudd i'r Ymgeisydd y byddai unrhyw drosedd arall yn y dyfodol yn cael ei drin yn ddifrifol.

Eglurwyd penderfyniad a rhesymau'r pwyllgor i'r Ymgeisydd.

## 7 ADOLYGU TRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 045613

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd eisoes) ar –

(i) addasrwydd Gyrrwr Rhif 045613 i ddal trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat;

(ii) Gwybodaeth a dderbyniwyd ar 24 Medi 2013, a chwyn dilynol a wnaed yn erbyn y Gyrrwr, ynglŷn â rhoi sylwadau ymosodol, sarhaus ac anaddas ar wefan rhwydweithio cymdeithasol ynglŷn â theithiwr oedd wedi talu i deithio, oedd hefyd yn cynnwys datgelu manylion personol (roedd crynodeb o'r ffeithiau a datganiadau gan dystion a dogfennau cysylltiol wedi'u hatodi i'r adroddiad), a

(iii) gofynnwyd i'r Gyrrwr i fod yn bresennol yn y cyfarfod i gefnogi ei adolygiad trwydded ac ymateb i gwestiynau aelodau ar hynny.

Roedd y Gyrrwr yn bresennol yn y cyfarfod ac yn dilyn cyflwyniadau cadarnhaodd ei fod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor. Cyflwynodd y Swyddog Gorfodi Trwyddedu (HB) yr adroddiad a manylodd ar ffeithiau'r achos.

Ymddiheurodd y Gyrrwr am ei ymddygiad gan egluro ei fod yn credu bod y sylwadau yn breifat rhyngddo ef a'i ffrindiau ac nad oedd wedi bwriadu tramgwyddo na'u gwneud yn gyhoeddus. Holodd yr Aelodau'r gyrrwr ynglŷn â'i ymddygiad a'i agwedd tuag at y teithiwr a holwyd sut y gwnaed y sylwadau'n gyhoeddus. Cyfeiriodd y Gyrrwr at ei broblemau yn ei fywyd personol oedd yn effeithio ar gyflwr ei feddwl ar y pryd a'i fwriad oedd cael ychydig o hwyl (roedd copi o lythyr cyfreithiwr yn ddyddiedig 18 Tachwedd 2013 yn cadarnhau sefyllfa ei fywyd personol wedi'i gylchredeg yn y cyfarfod). Tybiodd bod y sylwadau wedi'u rhannu gan ei ffrindiau ac roedd wedi cael gwared â'r rhain a heb ddefnyddio'r wefan ers

hynny. Cadarnhaodd nad oedd yn ymwybodol o ddifrifoldeb ei weithredoedd ar y pryd ac nad oedd yn meddwl yn glir. Mewn ymateb i gwestiynau pellach cadarnhaodd y Gyrrwr nad oedd wedi ymddiheuro i'r teithiwr hyd yn hyn gan nad oedd yn dymuno mynd ati'n uniongyrchol na gwneud y sefyllfa'n waeth. Yn olaf cadarnhaodd mai digwyddiad unigol ydoedd ac nad oedd yn cyfeirio at gwsmeriaid ar y wefan fel arfer.

Yn ei ddatganiad terfynol ymddiheurodd y Gyrrwr am y digwyddiad a mynegodd ei fod yn difaru ei weithredoedd. Ychwanegodd y byddai'n ymddiheuro i'r teithiwr.

Ar y pwynt hwn torrodd y pwyllgor i ystyried yr achos a -

***PENDERFYNWYD** diddymu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni a Cherbydau Hurio Preifat Gyrrwr Rhif 045613 er diogelwch y cyhoedd.*

Y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu oedd –

Ystyriodd yr Aelodau'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd a sylwadau'r Gyrrwr i gefnogi'r achos a'i ymateb i'r cwestiynau. Mynegwyd pryderon difrifol ynglŷn ag ymddygiad y Gyrrwr oedd yn torri ymddiriedaeth ac nid oedd y pwyllgor o'r farn ei fod yn Unigolyn cymwys ac addas i dderbyn trwydded. Prif ystyriaeth y Pwyllgor oedd diogelwch y cyhoedd ac oherwydd ffactorau tramgwyddedig bod (1) y teithiwr yn unigolyn diamddiffyn, (2) roedd manylion personol wedi'u datgelu oedd yn gallu dangos hunaniaeth y teithiwr ar y we gan ei rhoi mewn risg, a (3) sylwadau amharchus ac agwedd y Gyrrwr o ran hynny, cytunwyd y dylid diddymu'r drwydded ar unwaith er lles diogelwch y cyhoedd.

Eglurwyd penderfyniad a rhesymau'r pwyllgor i'r Gyrrwr a rhoddwyd gwybodaeth iddo am ei hawl i apelio.

Ar y pwynt hwn (10.30am) cafwyd egwyl.

## 8 ADOLYGU TRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 046577

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (wedi'i gylchredeg eisoes) yn gofyn i aelodau adolygu trwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat mewn perthynas â Gyrrwr Rhif 046577.

Roedd Gyrrwr Rhif 046577 wedi gofyn am gael gohirio'r achos hwn ac wedi cyflwyno llythyr (a gylchredwyd yn y cyfarfod) yn egluro y byddai dramor ar adeg y gwrandawiad ac felly nid oedd yn gallu bod yn bresennol. Er lles cyfiawnder naturiol penderfynodd yr aelodau i ganiatáu gohirio ond oherwydd difrifoldeb yr achos cytunwyd y dylid trefnu cyfarfod arbennig cyn gynted â phosibl i ystyried y mater.

***PENDERFYNWYD** gohirio ystyried addasrwydd Gyrrwr Rhif 046577 i ddal trwydded Cerbyd Hacni a Cherbydau Hurio Preifat i gyfarfod arbennig y Pwyllgor Trwyddedu cyn gynted â phosibl.*

9 **ADOLYGU TRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 048997**

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (wedi'i gylchredeg eisoes) yn gofyn i aelodau adolygu trwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat mewn perthynas â Gyrrwr Rhif 048997.

Roedd Gyrrwr Rhif 048997 yn bresennol a chyfeiriodd at ei lythyr (a gylchredwyd yn y cyfarfod) yn gofyn am ohirio'r achos er mwyn caniatáu digon o amser iddo baratoi a chyflwyno amddiffyniad teg a diduedd. Cyflwynodd lythyr gan unigolyn yr oedd yn bwriadu dibynnu arnynt fel tyst allweddol yn cadarnhau nad oedd yn gallu mynychu'r cyfarfod oherwydd ymrwymiadau yn ei waith. Cynghorodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd bod cais i ohirio wedi'i dderbyn ar e-bost y diwrnod blaenorol gan Gyfreithiwr y Gyrrwr.

Ystyriodd yr Aelodau'r cais i ohirio a nodi difrifoldeb y mater. Er mwyn caniatáu gwrandawiad teg -

***PENDERFYNWYD*** *gohirio ystyried addasrwydd Gyrrwr Rhif 048997 i ddal trwydded Cerbyd Hacni a Cherbydau Hurio Preifat i gyfarfod arbennig y Pwyllgor Trwyddedu cyn gynted â phosibl.*

Eglurwyd penderfyniad y pwyllgor i'r Gyrrwr a phryd y byddai'r cyfarfod arbennig yn cael ei gynnal a byddai hynny'n cael ei gadarnhau cyn gynted â phosibl. Pwysleisiwyd iddo fod y pwyllgor yn disgwyl delio â'r achos ar y diwrnod a phe bai unrhyw anawsterau yn codi o ran tystion yn methu bod yn bresennol yna byddai'r aelodau'n disgwyl datganiad ysgrifenedig.

10 **ADOLYGU TRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 047689**

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd eisoes) ar –

(i) addasrwydd Gyrrwr Rhif 047689 i ddal trwyddedau i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat;

(ii) Roedd yr adroddiad wedi'i ohirio o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 18 Medi 2013 ar gais y Gyrrwr;

(iii) Roedd adroddiad wedi'i dderbyn gan Heddlu Gogledd Cymru ynglŷn ag ymddygiad y gyrrwr trwyddedig ar 10 Mehefin 2013 lle y cyflwynwyd Cosb Benodedig Deddf Gorchymyn Cyhoeddus- roedd y digwyddiad wedi'i ddal ar TCC hefyd (roedd crynodeb o ffeithiau ynghyd â datganiadau tystion a dogfennau perthnasol ynghlwm â'r adroddiad), a

(iv) gofynnwyd i'r Gyrrwr i fod yn bresennol yn y cyfarfod i gefnogi ei adolygiad trwydded ac ymateb i gwestiynau aelodau ar hynny.

Roedd y Gyrrwr yn bresennol yn y cyfarfod ac yn cael ei gynrychioli gan ei gyflogwr. Yn dilyn cyflwyniadau cadarnhaodd y Gyrrwr ei fod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor. Cyflwynodd y Swyddog Gorfodi Trwyddedu (HB) yr adroddiad a manylodd ar ffeithiau'r achos.

Eglurodd Cynrychiolydd y Gyrrwr bod y Gyrrwr wedi gweithio iddo am bedair blynedd yn flaenorol heb unrhyw ddigwyddiad ac roedd yn aelod gwerthfawr o'r tîm gyda chofnod teilwng. Roedd wedi cyfaddef ei drosedd, ac wedi ymddiheuro am y digwyddiad ac wedi derbyn y Rhybudd Cosb Benodedig. Darparodd nifer o eirdaon ysgrifenedig gan gwsmeriaid yn tystio cymeriad da'r Gyrrwr (a gylchredwyd yn y cyfarfod) a'i ganmol fel gyrrwr trwyddedig. Apeliodd i'r Aelodau i beidio â diddymu ei drwydded ac amlygodd yr effaith andwyol ar gwsmeriaid cyfredol o ganlyniad i hynny. Ymatebodd y Gyrrwr i'r cwestiynau a chyfeiriodd at broblemau yn ei fywyd personol yn ystod cyfnod y digwyddiad, roedd yn cydnabod nad oedd ei ymddygiad yn dderbyniol ac roedd y digwyddiad yn codi cywilydd arno ac fe ymddiheurodd. Eglurodd amgylchiadau'r digwyddiad a'i rwystredigaeth ar y pryd.

Wrth wneud datganiad terfynol apeliodd Cynrychiolydd y Gyrrwr ar y pwyllgor i beidio â diddymu ei drwydded gan amlygu'r gwasanaeth gwerthfawr yr oedd yn ei ddarparu.

Ar y pwynt hwn torrodd y pwyllgor i ystyried yr achos a -

***PENDERFYNWYD*** *cyflwyno rhybudd i Yrrwr Rhif 047689 ynglŷn â difrifoldeb y drosedd a'i ymddygiad yn y dyfodol.*

Y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu oedd –

Yn ystod y trafodaethau, mynegwyd pryderon difrifol ynglŷn ag ymddygiad y Gyrrwr, wrth iddo weithio, lle y gallai'r cyhoedd ei weld a'i glywed, gan gynnwys plant. Fodd bynnag roedd y pwyllgor yn derbyn fod y Gyrrwr wirioneddol yn edifarhau am ei weithredoedd ac wedi ystyried y geirdaon a ddarparwyd gan gwsmeriaid yn tystio ei gymeriad da a gwasanaeth gwerthfawr. Er bod ymddygiad y Gyrrwr yn yr achos hwn yn amlwg yn annerbyniol cytunwyd y dylid cyflwyno rhybudd difrifol yn yr achos hwn. Fodd bynnag byddai unrhyw droseddau pellach yn y dyfodol sy'n cael eu cyflwyno i'r pwyllgor yn cael eu trin yn ddifrifol.

Eglurwyd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau dros hynny i'r Gyrrwr a'i Gynrychiolydd.

**11 ADDASRWYDD CERBYD AR GYFER TRWYDDED CERBYD HACNI**

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd eisoes) ar –

(v) Addasrwydd Cerbyd Hacni (sydd â thrwydded i gludo 7 teithiwr) i ddal trwydded i gludo 8 teithiwr;

(vi) Nid oedd y swyddogion mewn sefyllfa i ddyrannu trwydded ar gyfer 8 teithwyr gan nad oedd y cerbyd yn cydymffurfio â Chanllaw Prawf

Cymhwysedd Cerbyd Hacni / Hurio Preifat na manyleb 3.1 (f) fel y manylir yn Amodau Trwyddedu Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat y Cyngor, sef (1) nid oedd ffurfwedd y seddau yn darparu digon o le i'r teithwyr basio a (2) byddai'n rhaid i deithwyr godi un o'r seddau eraill er mwyn cael mynediad / gadael y seddau cefn, a

(vii) gofynnwyd i'r ymgeisydd i fod yn bresennol yn y cyfarfod i gefnogi ei gais ac ymateb i gwestiynau aelodau ar hynny.

Nid oedd yr ymgeisydd yn bresennol a chyflwynodd Swyddog Gorfodi Trwyddedu'r Cyngor (HB) yr adroddiad. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried a fyddai'n addas i ymadael â pholisi'r Cyngor ynglŷn â manylion y cerbyd er mwyn cymeradwyo'r cais fel y cyflwynwyd.

Ar y pwynt hwn torrodd y pwyllgor i ystyried yr achos a -

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cerbyd Hacni sy'n destun i'r cais yn derbyn trwydded i gludo 8 teithiwr.*

Y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu oedd –

Yn ystod eu trafodaethau nododd yr aelodau'r cyngor a gyflwynwyd gan Adran Cludiant ynglŷn â diogelwch y cerbyd ar gyfer defnydd masnachol a bod amodau trwyddedu cyfredol ar gyfer cerbyd hacni / hurio preifat ynglŷn â gosodiadau seddau yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Roedd y pwyllgor yn fodlon bod y cerbyd oedd yn destun i'r cais yn addas ar gyfer cludo 8 teithiwr. O ganlyniad penderfynodd y pwyllgor i gymeradwyo'r cais.

Gofynnodd y Pwyllgor bod unrhyw gerbyd sy'n destun cais tebyg yn y dyfodol ar gael i'r aelodau gael ei arolygu.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30am

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Gwener, 20 Rhagfyr 2013 am 9.30 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr William Cowie, Richard Davies, Stuart Davies, Barry Mellor, Win Mullen-James, Arwel Roberts a Cefyn Williams (Cadeirydd)

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (GW), Swyddog Gorfodaeth (TWE), Swyddog Gorfodaeth Trwyddedi (HB) a'r Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

### 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Joan Butterfield a Hugh Irving

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd cysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu.

### 3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chafwyd unrhyw fater brys.

### 4 ADOLYGU TRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A HURIO PREIFAT – GYRRWR RHIF 046577

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd eisoes) ar –

(i) addasrwydd Gyrwyr Rhif 046577 i ddal trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat;

(ii) gwybodaeth a dderbyniwyd ar 24 Medi, 2013, a chwyn ddilynol a wnaed yn erbyn y gyrrwr, ynglŷn â gosod sylwadau amhriodol ar wefan rhwydweithio cymdeithasol am deithiwr a dalodd am deithio a oedd hefyd yn cynnwys datgelu manylion personol (atodwyd crynodeb o ffeithiau ynghyd â datganiadau gan dystion a dogfennau cysylltiedig i'r adroddiad), a

(iii) gwahoddwyd y Gyrrwr i fod yn bresennol yn y cyfarfod i gefnogi ei adolygiad trwydded ac ateb cwestiynau aelodau ar hynny.

Roedd y Gyrrwr yn bresennol yn y cyfarfod a chadarnhaodd ei fod wedi derbyn yr adroddiad a threfnau'r pwyllgor. Cyflwynodd y Swyddog Gorfodi Trwyddedu'r adroddiad a rhoddodd grynodeb o ffeithiau'r achos. Atgoffwyd Aelodau fod y mater wedi'i ohirio o'r cyfarfod diwethaf ar gais y Gyrrwr gan na allai fod yn bresennol.

Cyflwynodd y Gyrwyr ble ysgrifenedig i liniaru ynghyd â thystlythyrau i'w gymeriad gan ei gyflogwr a rhai o'i gwsmeriaid rheolaidd (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod). Mynegodd edifeirwch dwys am y digwyddiad a rhoddodd sicrwydd i'r pwyllgor ynghylch ei ymddygiad da blaenorol a'i ymddygiad yn y dyfodol. Cyfeiriodd at amgylchiadau'r digwyddiad ac eglurodd ei fod yn credu mai tynnu coes preifat rhwng ffrindiau oedd y negeseuon. Roedd y Gyrrwr yn cydnabod fod ei ymddygiad yn annerbyniol a chynigiodd ei ymddiheuriadau i'r teithiwr dan sylw. Yn olaf, cyfeiriodd at ei amgylchiadau teuluol gan nodi y byddai colli ei drwydded yn achosi caledi eithriadol.

Holodd yr Aelodau'r Gyrwyr am ei weithredoedd, gan gyfeirio'n benodol at y rhesymeg am ei ymddygiad a'i ddehongliad o'r digwyddiadau. Roedd y Gyrrwr yn awyddus i bwysleisio nad oedd erioed yn fwriad ganddo i'w sylwadau gael eu cyhoeddi nac achosi tramgwydd a'i fod wedi credu'n ddiniwed eu bod wedi'u gwneud rhwng ffrindiau. Ni ddatgelodd fanylion am y cyfeiriad yn fwriadol ac roedd yn bendant na fyddai fyth wedi datgelu enw na chyfeiriad llawn y teithiwr. Yn ogystal, dywedodd y Gyrrwr ei fod bob amser yn trin ei deithwyr gyda chwrteisi a pharch.

Yn ei ddatganiad terfynol mynegodd y Gyrwyr edifeirwch dwys ac ymddiheurodd unwaith eto am ei weithredoedd. Plediodd ar aelodau i beidio â diddymu ei drwydded a rhoddodd sicrwydd ynglŷn â'i ymddygiad yn y dyfodol gan dynnu sylw at ei record flaenorol ddilychwyn.

Ar y pwynt hwn torrodd y pwyllgor i ystyried yr achos a -

***PENDERFYNWYD** atal Gyrwyr Rhif 046577 rhag gyrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat am gyfnod o un wythnos a fyddai'n dod i rym ar unwaith ar sail diogelwch y cyhoedd.*

Dyma oedd y rhesymau am benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Rhoddodd Aelodau ystyriaeth ofalus i'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd a datganiad y Gyrrwr i gefnogi ei achos gan gynnwys ei ble i liniaru a'r tystlythyrau cymeriad a ddarparwyd. Mynegwyd pryderon difrifol ynghylch y sylwadau amharchus a wnaeth y Gyrrwr ynglŷn â theithiwr diamddiffyn a'r ffaith ei fod wedi datgelu rhan o'i chyfeiriad ac y gallai fod wedi peryglu'r unigolyn. Roedd yr Aelodau wedi ystyried diddymu'r drwydded ond wedi ystyried ymddygiad y Gyrrwr a'i edifeirwch gwirioneddol ynglŷn â'r digwyddiad ynghyd â'r ffaith nad oedd y sylwadau yn rhai o natur sarhaus ac nad oedd wedi datgelu cyfeiriad llawn y teithiwr. O ganlyniad, cytunwyd i atal y drwydded am un wythnos a fyddai'n dod i rym ar unwaith ar sail diogelwch y cyhoedd. Yn ogystal, roedd y pwyllgor yn disgwyl i'r Gyrrwr wneud ymddiheuriad llawn i'r teithiwr dan sylw ac anfon copi at yr Adran Drwyddedu at ddibenion ffeilio.

Cafodd penderfyniad y pwyllgor a'u rhesymau dros hynny eu cyfleu i'r Gyrrwr ynghyd â goblygiadau'r penderfyniad hwnnw a'i hawl i apelio. Fe'i rhybuddiwyd hefyd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar y pwynt hwn (10.20 a.m.) cafwyd egwyl ar gyfer lluniaeth.

## 5 ADOLYGU TRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A HURIO PREIFAT – GYRRWR RHIF 048997

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd eisoes) ar –

(i) addasrwydd Gyrwyr Rhif 048997 i ddal trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat;

(ii) gwnaed cwyn gan Swyddog Gorfodi Sifil ynglŷn ag ymddygiad y gyrrwr trwyddedig ar 10 Hydref 2013 ar ôl rhoi Rhybudd Talu Cosb iddo mewn perthynas â cherbyd hacni,

(iii) roedd y Gyrrwr wedi derbyn Hysbysiad Cosb Benodol gan Heddlu Gogledd Cymru am Drosedd dan y Drefn Gyhoeddus yn ymwneud â'r digwyddiad (roedd crynodeb o'r ffeithiau ynghyd â datganiadau tystion a dogfennau cysylltiedig wedi'u hatodi i'r adroddiad), a

(iv) gwahoddwyd y Gyrrwr i fod yn bresennol yn y cyfarfod i gefnogi ei adolygiad trwydded ac ateb cwestiynau aelodau ar hynny.

Rhoddodd y Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu (SGT) grynodeb o'r adroddiad a dywedodd nad oedd y Gyrrwr yn bresennol. Roedd y mater wedi'i ohirio ers y cyfarfod diwethaf ar ôl derbyn gohebiaeth ysgrifenedig gan y Gyrrwr a'r cyfreithwyr a gyfarwyddwyd ganddo yn gofyn am ohiriad. Roedd y cyfreithwyr wedi hysbysu ers hynny nad oeddynt bellach yn cynrychioli'r Gyrrwr dan sylw. Gan nad oedd y Gyrrwr wedi rhoi eglurhad dros ei fethiant i fod yn bresennol, y ffaith fod y mater wedi'i ohirio yn barod ar gais y Gyrrwr, a gan ystyried natur ddifrifol yr achos penderfynodd yr aelodau i fwrw ymlaen â'r adolygiad yn absenoldeb y Gyrrwr.

Atgoffodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yr aelodau am y sylwadau a wnaed yn y cyfarfod diwethaf. Darllenodd lythyr a dderbyniwyd oddi wrth y Gyrwyr dan sylw lle'r oedd yn derbyn natur ddifrifol y digwyddiad ac yn dymuno rhoi'r mater yn nwylo cyfreithwyr. Aeth ati i gyfleu ei ymddiheuriadau a'i edifeirwch dwys am y digwyddiad gan nodi fod cyfres o ddigwyddiadau anffodus wedi arwain at y diweddglo hwn. Teimlai'r Gyrrwr fod y dystiolaeth a gyflwynwyd wedi'i rhagfarnu yn ei erbyn ac roedd eisiau paratoi amddiffyniad a darparu datganiadau tystion.

Atebodd y SGT gwestiynau gan aelodau gan nodi -

- nid oedd manylion yr aelod o'r cyhoedd oedd yn rhan o'r digwyddiad wedi'u cymryd ar adeg y digwyddiad ac yn anffodus, nid oedd modd dod o hyd iddo
- cadarnhaodd bod rhai mân anghysondebau rhwng y ddau ddatganiad a roddwyd gan y Swyddogion Gorfodaeth Sifil
- Roedd Swyddogion Gorfodaeth Sifil yn caniatáu i geir barcio am hyd at ddeng munud yn y lle parcio cyn rhoi Rhybudd Talu Cosb

- nid oeddem yn gwybod a oedd y Gyrwyr wedi talu’r Hysbysiad Cosb Benodedig a roddwyd gan yr Heddlu ond roedd wedi nodi yn ei ddatganiad ei fod yn bwriadu gwneud hynny.

Ar y pwynt hwn torrodd y pwyllgor i ystyried yr achos a -

***PENDERFYNWYD*** *diddymu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni a Cherbydau Hurio Preifat Gyrrwr Rhif 048997 er diogelwch y cyhoedd.*

Dyma oedd y rhesymau am benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Rhoddodd aelodau ystyriaeth ofalus i’r holl dystiolaeth a gyflwynwyd, gan gynnwys sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd yn flaenorol gan y Gyrrwr fel rhan o’i gais i ohirio’r eitem yn y cyfarfod diwethaf. Mynegwyd pryderon difrifol ynghylch ymddygiad y Gyrwyr yn ystod y digwyddiad, ac yn arbennig ei agwedd ymosodol tuag at y Swyddogion Gorfodaeth Sifil ac aelod o’r cyhoedd a oedd yn bresennol ynghyd â’r iaith frwnt a sarhaus a ddefnyddiwyd a oedd yn dangos problem gyda’i allu i reoli gwylltineb. Cododd y digwyddiad hwn tra bod y Gyrrwr ar ddyletswydd ac mewn man cyhoeddus a dystiwyd ac a glywyd gan y cyhoedd a phlant efallai. Nododd yr Aelodau fod Heddlu Gogledd Cymru wedi penderfynu rhoi Hysbysiad Cosb Benodol am Drosedd dan y Drefn Gyhoeddus a oedd yn cadarnhau i ryw raddau'r digwyddiad fel y disgrifir yn yr adroddiad. Nodwyd fod y Gyrrwr ei hun wedi cydnabod yn ei sylwadau ysgrifenedig fod ei ymddygiad yn annerbyniol. Nododd yr Aelodau hefyd eu bod wedi caniatáu gohirio’r achos yn flaenorol ac nad oedd y Gyrrwr wedi rhoi unrhyw esboniad dros ei fethiant i fod yn bresennol. Prif ystyriaeth y pwyllgor oedd diogelwch y cyhoedd ac yn sgil ymddygiad y Gyrrwr fel y disgrifir cytunwyd i ddiddymu’r drwydded ar unwaith er lles diogelwch y cyhoedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.00 a.m.

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 5 Mawrth 2014 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Swyddog Trwyddedu licensing@denbighshire.gov.uk01824 706451 |
| **TESTUN:** | **Cais i Adnewyddu Trwydded Sefydliad Rhyw** |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi derbyn cais i adnewyddu Trwydded Sefydliad Rhyw, yn unol ag Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982.

Mae angen i'r Pwyllgor Trwyddedu wneud penderfyniad ynglŷn â'r cais, gan ystyried yr holl ffeithiau/tystiolaeth berthnasol.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae Atodlen 3 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 yn gwneud darpariaethau ar gyfer trwyddedu sefydliadau rhyw gan awdurdodau lleol.

Yn y Panel Trwyddedu a gynhaliwyd ar 30 Mai 2001, penderfynodd yr Aelodau i ystyried pob cais yn ôl eu rhinweddau eu hunain. Wedi hynny, mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Medi 2001, penderfynodd yr Aelodau i fabwysiadu Atodlen 3 y Ddeddf yn ffurfiol gan ddod i rym ar 19 Tachwedd 2001.

## 3. PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

Adran 18 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982

## 4. GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Derbyniwyd cais gan 'Adult World' yn ymwneud ag eiddo yn 43-47 Queen Street, y Rhyl i adnewyddu Trwydded Sefydliad Rhyw.

4.2 Efallai y bydd yr Aelodau'n cofio fod y busnes wedi'i leoli ar Brighton Road, y Rhyl yn wreiddiol tan y gwnaed cais i symud y busnes i'r eiddo cyfredol a gymeradwywyd ym mis Rhagfyr 2002. Ers y dyddiad hwn, mae'r Aelodau wedi cymeradwyo cais i adnewyddu yn flynyddol.

4.3 Nid yw'r ymgeiswyr yn dymuno amrywio amodau'r drwydded ac mae'r oriau agor yn parhau heb eu newid fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Dydd Llun - Dydd Sadwrn | 09:30 - 21:00 |
| Dydd Sul a Gŵyl y Banc | 11:00-16:00 |

4.4 Gwahoddwyd yr ymgeiswyr i fynychu'r cyfarfod i gefnogi eu cais.

**5. YMGYNGHORI**

5.1 Heddlu Gogledd Cymru

Cyflwynwyd copi o'r cais i Heddlu Gogledd Cymru a bydd yr Aelodau'n dymuno nodi nad yw'r heddlu wedi cyflwyno unrhyw wrthwynebiad i adnewyddiad blynyddol y Drwydded.

5.2 Hysbysiad Cyhoeddus

Mae'r ymgeiswyr hefyd wedi cyhoeddi hysbysiad cyhoeddus angenrheidiol, un mewn papur newydd lleol sy'n cael ei gylchredeg yn yr ardal ac un ar yr eiddo ei hunan; ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad gan y cyhoedd mewn ymateb i unrhyw un o'r hysbysiadau.

**6. GOBLYGIADAU O RAN COST**

6.1 Yn unol â phrisiau'r Cyngor, mae ffi o £2,600 yn daladwy gan yr ymgeiswyr mewn perthynas â'r cais. Mae'r ffi yn talu am adennill costau i'r gwasanaeth trwyddedu i gyflwyno a monitro'r drwydded.

6.2 Bydd yr Aelodau'n cofio ar 16 Mawrth 2010, yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o Ffioedd Trwydded Sefydliad Rhyw, penderfynwyd y dylid gosod ffi adnewyddu a ffi trosglwyddo ar gyfer Trwydded Sefydliad Rhyw o £2,600, gyda'r opsiwn o dalu mewn rhandaliadau. Mae ffi ar gyfer Trwydded Sefydliad Newydd yn parhau i fod yn £6,250.

**7. GOBLYGIADAU AR FEYSYDD POLISI ERAILL**

Mae Adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anrhefn yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried materion trosedd ac anrhefn wrth wneud penderfyniadau yn ymwneud â thrwyddedu. Felly wrth ystyried y cais, bydd yr Aelodau'n dymuno ystyried yr holl ffactorau perthnasol, gan

gynnwys goblygiadau yn ymwneud â’r posibilrwydd y bydd y penderfyniad yn effeithio ar faterion trosedd ac anrhefn yn yr ardal.

8. **YSTYRIAETHAU**

Efallai y bydd yr Aelodau'n ystyried y pwyntiau canlynol wrth benderfynu:

- Hyd yn hyn, nid yw Heddlu Gogledd Cymru wedi gwrthwynebu’r ceisiadau i adnewyddu.

- Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad gan y cyhoedd sy’n gwrthwynebu adnewyddu’r drwydded, a

- Mae’r eiddo wedi gweithredu’n llawn yn unol â'r caniatâd cyfredol, ac na fu unrhyw achos i Swyddogion Gorfodi Trwyddedu i ymweld neu gysylltu â’r eiddo heblaw oherwydd arferion trwyddedu.

9. **ARGYMHELLIAD**

Yn absenoldeb unrhyw wrthwynebiad, mae’r swyddogion yn argymell adnewyddu Trwydded Sefydliad Rhyw, ynghyd â'r dewis i barhau i dalu'r ffi o £2,600.00 mewn rhandaliadau.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 5 Mawrth 2014 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Trwyddedu<br>trwyddedu@sirddinbych.gov.uk<br>01824 706451 |
| **TESTUN:** | **Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol 2014/15** |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.2 Cynghori'r Aelodau o'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol arfaethedig ar gyfer 2014/15.

**2. CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1 Mae Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol arfaethedig ynghlwm, yn Atodiad 1, i'r Aelodau ei ystyried a'i gymeradwyo.

**3. GWYBODAETH GEFNDIR**

3.1 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol yn dilyn cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Trwyddedu, fod y Swyddogion wedi'ch hysbysu, oherwydd nifer o amgylchiadau na ragwelwyd, na chadwyd at y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol. Cytunwyd y byddai Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol 2 flynedd yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn y Pwyllgor Trwyddedu nesaf.

3.2 Rydym yn awr mewn sefyllfa i adrodd i'r Aelodau ynglŷn â Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol arfaethedig diwygiedig. Bydd y rhaglen yn ymgorffori adolygiadau o bolisïau trwyddedu ynghyd â'r cynigion i fabwysiadu unrhyw bolisïau rhanbarthol newydd y mae'r swyddogion wedi cyfrannu atynt neu'n ymwybodol ohonynt.

3.3 Mae nifer o newidiadau arfaethedig i'r Ddeddf Trwyddedu 2003. Un yw'r Bil Dadreoleiddio sy'n cael ei ystyried gan y Senedd ar hyn o bryd, sy'n cynnig nifer o newidiadau bychain i Ddeddf Trwyddedu 2003. Newid arall sydd i ddod yw ychwanegu amod hanfodol arall, ynglŷn â gwahardd gwerthu alcohol am bris sy'n is na chost toll alcohol a'r TAW.

3.4 Mae'r Awdurdodau Lleol hefyd yn aros am ddyddiad gweithredu terfynol er mwyn gosod ffioedd a phrisiau lleol ar gyfer swyddogaethau o dan Ddeddf Trwyddedu a Deddf Gamblo. Ar ôl ei weithredu, bydd hyn yn waith cymhleth, a fydd yn ychwanegol i'r adolygiad ffioedd cyfredol.

3.5 O ran adolygiad ffioedd a phrisiau, hoffai'r Swyddogion ddiweddaru'r Aelodau ynglŷn â'r sefyllfa bresennol. Mae Panel Technegol Trwyddedu Cymru Gyfan wedi paratoi Pecyn Gwaith Ffioedd i gynorthwyo'r Awdurdodau Lleol wrth osod eu ffioedd a phrisiau Trwyddedu. Bydd y pecyn gwaith ar gael i Awdurdodau Lleol Cymru yn fuan.

3.6 Mae'r Aelodau'n ymwybodol, bod yn rhaid cyfiawnhau unrhyw ffioedd a phrisiau a osodir, a nes bod strwythur staff terfynol y Gwasanaeth wedi'i gymeradwyo, ni all y Swyddogion gwblhau'r dasg gan y bydd yn anodd gosod ffigwr y gellir ei gyfiawnhau ar gyfer y ffioedd a phrisiau nes ei bod yn amlwg pa staff fydd yn cyflawni swyddogaethau trwyddedu ac ar ba raddfa.

3.7 Gan ystyried yr uchod, teimla'r Swyddogion felly ei bod yn fwy priodol cynhyrchu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol byrrach yn hytrach nag un 2 flynedd, fel y cytunwyd, oherwydd nifer y newidiadau a gynigir i'r ddeddfwriaeth.

3.8 Mae'r swyddogion yn ymgynghori gyda deiliaid trwydded cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat a phartïon â diddordeb ar hyn o bryd, ynglŷn â chwpl o Bolisïau a ddrafftiwyd gan Banel Technegol Trwyddedu Cymru Gyfan, sef Polisi Euogfarn ar gyfer gyrwyr a gweithredwyr a Pholisi Defnydd Arfaethedig ar gyfer cerbydau hacni. Bydd yr Aelodau'n derbyn manylion canlyniadau'r ymgynghoriad yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor ym mis Mehefin.

3.9 Mae'r Swyddogion yn ymgynghori ymhellach gyda'r fasnach ynglŷn â pholisi a gweithdrefn Pwyntiau Cosb diwygiedig ar gyfer Gweithredwyr a Gyrwyr trwyddedig. Unwaith eto, bydd y Swyddogion yn adrodd canlyniadau'r ymgynghoriad i'r Aelodau yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor ym mis Mehefin. Os caiff ei gymeradwyo, bydd yn darparu offer ychwanegol ar gyfer y Swyddogion i orfodi trwyddedai nad ydynt yn cydymffurfio.

3.10 Mae nifer o adolygiadau polisi cymhleth angen eu cwblhau ac mae'r rhain yn gofyn am waith ymchwil helaeth, e.e. trwyddedu tacsis, Sefydliad Rhyw, Masnachu ar y Stryd. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fod gwaith yn parhau gydag adolygiad trwyddedu tacsis a bydd Swyddogion yn adrodd ar wahanol elfennau o'r adolygiad, fel y manylir yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ynghlwm.

3.11 **ARGYMHELLIAD**

Fod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad ac yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel y manylir yn Atodiad 1.

**ATODIAD 1**

**ADRODDIAD I'R:** **PWYLLGOR TRWYDDEDU**

**DYDDIAD:** **Mawrth 2014**

**AWDUR YR ADRODDIAD:** **PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**

**TESTUN:** **RHAGLEN GWAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2014/15**

| DYDDIAD | ADRODDIAD | SYLW |
|---|---|---|
| Mehefin 2014 | Adolygu'r polisi Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat:<br>Polisi Euogfarnau<br>Polisi Defnydd Arfaethedig<br>Cynllun Pwyntiau Cosb. | Adroddiad i'r Aelodau i gymeradwyo'r polisïau arfaethedig |
| | Polisi Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013 | Adroddiad i'r Aelodau i gymeradwyo Polisi arfaethedig Gogledd Cymru. |
| Medi 2014 | Adolygu'r Polisi Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat<br>Cod Gwisg y Gyrwyr<br>Cod Ymddygiad | Adroddiad i'r Aelodau i gymeradwyo'r polisi arfaethedig |
| Rhagfyr 2014 | Adolygu Polisi Sefydliad Rhyw Cyfredol | Adroddiad i'r Aelodau ei ystyried |
| Mawrth 2015 | Adolygu Polisi Masnachu ar y Stryd | Adroddiad i'r Aelodau ei ystyried a chymeradwyaeth i'r Swyddogion ymgynghori â'r partïon â diddordeb |
| | Adnewyddu Sefydliad Rhyw | Adroddiad i'r Aelodau i ystyried adnewyddu Trwydded Sefydliad Rhyw cyfredol |
| Mehefin 2015 | Adolygu Polisi Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat cyfredol yn ymwneud â Cherbydau | Adroddiad i'r Aelodau i ystyried a chymeradwyo diwygiadau arfaethedig i'r polisi |
| Medi 2015 | Adolygu Polisi Cerbydau Hacni a Cherbydau | Adroddiad i'r Aelodau i ystyried a chymeradwyo |

| | | |
|---|---|---|
| | Hurio Preifat cyfredol yn ymwneud â Gweithredwyr | diwygiadau arfaethedig i’r polisi |

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag